





Croeso i fy rhifyn cyntaf o 'Cyswllt' sef ein Papur Newydd Cymunedol, fel Arweinydd newydd y Cyngor



Yn dilyn heriau 2020 mae'n deg dweud bod ein gobeithion ni oll wedi bod yn uchel ar gyfer 2021; fodd bynnag, nid oedd cychwyn y flwyddyn gystal ag a ragwelwyd, gyda'r misoedd cyntaf yn cael eu treulio yn yr ail gyfnod clo. Bu'r ymroddiad o du staff y Cyngor, aelodau etholedig, sefydliadau partner a'r sawl sy'n gwirfoddoli ar draws ein cymunedau yn anhygoel, ac rwyf am gydnabod y sawl sydd wedi parhau i gyfrannu y tu hwnt i'r disgwyl yn ystod creis coronafeirws. Gallwn ni oll edrych yn ôl gyda balchder a myfyrio dros yr hyn a gyflawnwyd gennym dros yr 16 mis diwethaf, gan gydnabod yr heriau sylweddol y gwnaethom ni oll eu hwynebu.

Wrth ymateb i'r pandemig rydym ni wedi gweld cynnydd o ran gwaith gweddnewid y Cyngor drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bu'r cyfarfodydd hyn yn gadarnhaol iawn gan gyflwyno cyfle cyffrous i weddnewid dulliau'r Cyngor hwn o weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Y tu hwnt i'r pandemig, mae llawer o weithgarwch wedi bod y tu ôl i'r lleni gyda Chynllun Meistr Canol Tref Merthyr Tudful - cynllun a fydd yn arwain ein bwrdeistref sirol o nerth i nerth. Os fuoch yng nghanol y dref yn ddiweddar byddwch wedi sylwi fod ein gorsaf fysiau ar agor bellach. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno fod yr adeilad hwn yn ffantastig ac wedi gweddnewid y rhan honno o ganol y dref, ac rydym wedi derbyn gymaint o sylwadau cadarnhaol oddi wrth ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal â phreswylwyr lleol. Ar dudalen 4 gallwch ddarllen sut wnaeth disgyblion Ysgol Gatholig y Santes Fair gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer yr orsaf drwy annog cynghorwyr i osod peiriant llenwi poteli dŵr, yn y man ymgynnull.

Ym mis Mai, cafodd y Maer newydd ei urddo, sef y Cynghorydd Malcolm Colbran. Ei ragflaenydd, sy'n gyd-aelod ward â mi, y Cynghorydd Howard Barrett, oedd y Maer hiraf yn y swydd gan ei fod wedi gwasanaethu am ddwy flynedd. Gweler yr erthyglau cyfagos.

Cyhoeddwyd ein Prif Weithredwr newydd yn y Cyngor Llawn ar 16 Mehefin a hoffwn longyfarch Ellis Cooper unwaith yn rhagor ar ei benodiad. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am hyn gyferbydd. Yn olaf, hoffwn ddweud pa mor falch ydwyf o fod yn Arweinydd newydd arnoch chi. I mi, nid gwleidyddiaeth yw'r nod, ond yn hytrach yr hyn sydd orau i bobl Merthyr Tudful – a'r hyn allwn ei wneud i wella sut ydym ni'n gweithio, ble'r ydym ni'n byw, a'r cyfleoedd i bawb. Mae penderfyniadau anodd yn bownd o ddo i'n rhan ar hyd y daith ond rwy'n credu bydd y cadarnhaol yn ennill y dydd. Byddaf yn gwneud popeth y gallaf fel Arweinydd i gyflawni newid a pharhau ar hyd y daith hon o weddnewidiad.

Cadwch yn ddiogel.

Y Cynghorydd Lisa Mytton
Arweinydd

Y Cynghorydd Malcolm Colbran, Maer Merthyr Tudful 2021/22

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor a gynhaliwyd Ddydd Mercher 19 Mai 2021, cafodd y Cynghorydd Malcolm Colbran ei ethol yn Faer ar gyfer blwyddyn y Cyngor yn 2021 – 2022. Ei gydweiddog fydd Nicola Bridges.

Mae Malcolm sydd yn byw ym Medlinog wedi cynrychioli Ward Etholaethol Bedlinog ers 2017.

Cafodd Malcolm ei fagu yn Hailsham, swydd Sussex, sy'n dref fewndir, 8 milltir o Eastbourne a bu'n byw am nifer o flynyddoedd mewn pentref bychan o'r enw Horam sydd yn enwog am seidr

Merrydown.

Yn 2003, prynodd Swyddfa'r Post ym Medlinog lle y derbyniodd groeso gan y gymuned leol ac efallai, ymhenn rhyw 20 mlynedd mi fydd yn ystyried ei hun yn breswlydd lleol!

Mae Malcolm yn cofio'r tro cyntaf iddo yrru i fyny'r cwm o Drelewis, heibio Stormtown a gweld Bedlinog, am y tro cyntaf yn y pellter, yn glynau'n dynn i ochr y mynydd. Mae'n cofio rhyfeddu ar yr olygfa a blynyddoedd yn ddiweddarach, mae'n parhau i gael yr un teimlad. Yn ôl Malcolm, mae ymdeimlad cryf o gymuned yn bodoli

Cwblhau dyletswydd swyddogol olaf y Maer a fu hiraf yn ei swydd ym Merthyr Tudful



Roedd y Cynghorydd Howard Barret yn ei swydd o 15 Mai 2019 tan 19 Mai 2021; y tro cyntaf yn hanes y Sir y bu Maer yn gwasanaethu dau dymor, un ar ôl y llall.

Wrth gwrs, nid o fwriad oedd hyn, ac roedd y Maer presennol, y Cynghorydd Malcolm Colbran i fod i ddyfod yn Brif Ddinesydd yn 2020, fodd bynnag roedd cynlluniau eraill gan Covid-19.

Dyweddodd Howard am ei gyfnod yn y swydd: "Mae cynrychioli pobl Merthyr Tudful mewn llawer o ddigwyddiadau ac achlysuron amrywiol wedi bod yn brofiad gwych. Uchafbwynt personol i mi oedd bod yn bresennol yng Ngarddwest y Frenhines ym Mhalas Buckingham yn 2019.

"Rwyf wirioneddol wedi mwynhau cwrdd â chymaint o bobl o bob cefndir ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ei gofio am amser hir i ddod.

"Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn llawn heriau a newidiadau, fodd bynnag, fy mraint oedd estyn fy amser yn fy swydd fel Maer.

"Dymunaf y gorau i Malcolm yn ystod ei gyfnod yn y swydd."

Cododd Howard bron i £35,000 dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer ei elusen ddewisol, sef Cangen Merthyr Tudful o Ofal Canser Macmillan.

Andrew, y Maer leuenctid yn cael ei urddo



Hoffai Andrew petai ragor o bobl ifanc yn cyfranogi yn y Fforwm! Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â Janice Watkins yn Safer Merthyr Tydfil ar 01685 353999 neu ar Facebook @MTYouthForum neu Twitter @MTYouth.

Ymweliad EUB Tywysog Cymru â Hyb Cymunedol y Pandemig, Merthyr Tudful yn y Tŷ Injan, Dowlais

Ym mis Mai, ymwelodd Tywysog Cymru â chanolfan gymunedol ym Merthyr Tudful sydd wedi chwarae rôl allweddol wrth gefnogi preswylwyr drwy gydol y pandemig. Roedd EUB y Tywysog Siarl yn y Tŷ Injan, Dowlais i glywed am y gwaith sylweddol a gyflawnwyd gan staff a gwirfoddolwyr ar draws gwasanaethau a oedd yn amrywio o ddelio gyda pharseli bwyd i brofi am Covid-19 mewn partneriaeth â'r fyddin.

Croesawyd y Tywysog gan Arglwydd Faer Morgannwg Ganol Peter Vaughan a Rheolwr y Tŷ Injan, y Cynghorydd David Hughes, a'i hebryngodd ar daith dywys o'r adeilad gan gynnwys yr ystafell roddion ble mae'r holl roddion bwyd yn cael eu pacio.

Soniodd y Cynghorydd Hughes wrtho fod y Tŷ Injan wedi rhoi mwy na 10.5 tunnell o roddion bwyd ers diwrnod cyntaf y pandemig – yn ogystal â chyflenwi ar

Maer Ieuenctid newydd Merthyr Tudful yw Andrew Millar, sydd yn 14 oed ac yn fyfyrwr yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa.

Andrew yw 11eg Faer Ieuenctid y fwrdeistref sirol a chafodd ei urddo yn y Ganolfan Ddinesig yn gynharach yr wythnos hon. Cyd-fyfyrwr iddo yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, Samee Furreed yw'r Dirprwy Faer Ieuenctid.

Yn ei araith, amlinellodd y Maer

ym Medlinog ac ni all ddychmygu byw yn unman arall.

Mae Malcolm wedi dewis dwy elusen i'w cefnogi yn ystod ei flwyddyn yn y swydd ac mae gan y ddwy cysylltiad agos ag ef, sef 2 Wish Upon A Star – elusen 2 sydd yn cynnig cymorth i unrhywun sydd wedi eu heffeithio gan farwolaeth plentyn neu oedolyn ifanc, ac #4Tom – elusen i godi ymwybyddiaeth am faterion sydd yn ymwneud ag iechyd meddwl mewn oedolion ifanc, a sefydlwyd er cof am Tom Smerdon o Bedlinog. Cyflawnodd Tom hunanladdiad ym mis Mawrth 2019.

Y Dirprwy Faer ar gyfer 2021/22 yw'r Cynghorydd Declan Sammon, Cynghorydd Ward ar gyfer Dowlais.



Mae'r Cyngor yn penodi Prif Weithredwr newydd



Ar dydd Mercher 16 Mehefin 2021, cymeradwywyd, mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn, benodiad Ellis Cooper fel Prif Weithredwr newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae Ellis, sy'n briod â dau o blant ifanc, wedi gweithio i'r awdurdod lleol ers 2002.

Dyweddodd Arweinydd y Cyngor, y Cyngh. Lisa Mytton: "Rwyf wrth fy modd ei fod wedi ei gadarnhau o'r diwedd mai Ellis yw ein Prif Weithredwr newydd ac rwyf yn ei longyfarch ar ei lwyddiant. Roedd yn ofynnol cael proses gyfswydd drylwyr i sicrhau ein bod ni wedi penodi'r person cywir ar gyfer y swydd. Yn sgil calibr uchel yr ymgeiswyr, roedd yn broses heriol i bawb, fodd bynnag, gwnaeth Ellis arddangos ehangder gwybodaeth a phrofiad gan ddangos ei addasrwydd i'r rôl yn glir iawn."

Meddai Ellis: "Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi'n Brif Weithredwr newydd CBSMT. Ar ôl cael fy magu ym Merthyr Tudful a byw ym Mwrdeistref y Sir, rwy'n angerddol am lwyddiant parhaus yr Awdurdod hwn a gwneud y gorau dros y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu."

Dechreuodd Ellis yn ei swydd ar ddydd Iau 17 Mehefin 2021.



gyfer Banc Bwyd Merthyr Cynon – gan fwydo dros 2,000 o bobl drwy gydol y fwrdeistref sirol.

Cafodd EUB gyflwyniadau gan ddau grŵp sy'n defnyddio'r cyfleuster sef Ysgol Bale a Dawns Gyfoes Katrina Lyndon a Chlwb Karate Zentai. Yna, gwnaeth EUB gwrdd ag Arweinydd y Cyngor, Lisa Mytton, Beth Mytton a Lily Ellis a amlinellodd hanes y Tŷ Injan a

dangos ffotograffau i EUB am ymweliad blaenorol gan ei Dad-cu, Brenin Siôr y Pumed. Dilynwyd hyn gan gyflwyno byr gan Ysgol Abercanaid i egluro am eu prosiect ar 'Plogging' (Plogging yw Casglu sbwriel ac yn loncian yr un amser).

Yna, cafodd y Tywysog ei gyflwyno i Ymddiriedolwyr y Tŷ Injan, gwirfoddolwyr cyflenwi bwyd ac aelodau Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

Dyweddodd Andrew: "Mae'n anrhydedd fod pobl ifanc Merthyr Tudful wedi fy newis i, i fod yn Faer Ieuenctid iddynt. Mae'n gyfle gwych ac mi fyddaf yn gwneud fy ngorau i'w cynrychioli a sicrhau fod safbwyntiau pobl ifanc Merthyr yn cael eu clywed a'u gweithredu."

Yn ystod ei gyfnod yn y swydd, bydd Andrew yn codi arian tuag at elusen gerddorol Aloud ym Merthyr Tudful.



Gweithio gyda'n gilydd i Adfer, Trawsnewid a Gwella

Mae ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio a'r Cyngor er mwyn cynorthwyo i ddarparu'r cynlluniau trawsnewid.

Trwy gydol y pandemig, mae Bwrdd yn cynnwys ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru, gwleidyddion profiadol a swyddogion wedi parhau i gwrdd yn fisol er mwyn gyrru trawsnewidiad y Cyngor yn ei flaen.

Nid yw'r anallu i gwrdd wyneb yn wyneb wedi rhoi stop ar ddarpariaeth cymorth uniongyrchol ac mae'r Cyngor yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ariannu ymgynghorwyr i gynorthwyo a datblygu meysydd fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Chanolfan Gorfforaethol y Cyngor.

Rydym yn ddiolchgar am gymorth swyddogion Llywodraeth Cymru ac i CLILC am sicrhau cymorth ychwanegol.

Mae gwaith y bwrdd wedi canolbwyntio

ar fonitro "Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwelliant y Cyngor" gan osod blaenoriaethau er mwyn:

- Gwella'n safonau addysg.
- Gwella gwydnwch yn ein gofal cymdeithasol.
- Gwella adferiad economaidd, ledled y Fwrdeistref Sirol yn sgil effeithiau Coronafeirws.

Yn ogystal a'r 3 flaenoriaeth hon, rydym hefyd am gyflawni'n targedau lleihau carbon ac ailgylchu. Felly, rydym wedi datblygu rhaglen Amgylcheddol a Llesiant.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni hefyd newid y ffordd yr ydym yn gweithio drwy ystyried ein cyfleoedd digidol, bod yn fwy ymwybodol yn fasnachol, meddu ar yr adnoddau cywir ac ar lywodraethu cydnerth (y ffordd yr ydym yn gweithio.)

Sut ydym ni wedi datblygu?

• Mae Bwrdd Adferiad Economaidd y Cyngor wedi bod yn ceisio gwella'r rhagolygon ar gyfer swyddi a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo pobl leol allai fod angen cymorth a chyfleoedd swyddi neu sydd angen symud i wahanol ddulliau o gyflogaeth. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae Merthyr Tudful wedi dioddef gostyngiad eang a hirdymor i'r economi leol, er i beth gwelliant gael ei weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae angen gweithredu camau dwys a phendant gan bob lefel o'r llywodraeth, y sector gymunedol a phreifat er mwyn diwallu effaith y pandemig ar yr economi leol.

• Sefydlwyd y Panel Partneriaeth Addysg er mwyn gyrru gwelliannau mewn ysgolion gan ddwyn pob sector sydd yn rhan o ddarparu addysg ym Merthyr Tudful

ynghyd. Byddwn yn lansiio'n Strategaeth Gwelliant Ysgol yn yr hydref pan gobeithio y bydd ysgolion a'r dysgu wedi dychwelyd yn llawn, heb gyfyngiadau. Gelwir hyn yn 'Strategaeth Codi Disgwyliadau, Codi Safonau' (CDCS)

• Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu ers i'r Bwrdd gael ei sefydlu. Ar y cyfan, roedd archwiliad diweddar yn gadarnhaol iawn ac yn nodi enghreifftiau o ymarfer da a sut y cafwyd ymatebion prydlon i bryderon diogelu ac i risgiau i ddiogelwch pobl gael eu blaenoriaethu'n briodol. Nododd Arolygwyr weithlu ymroddedig lle y mae Uwch Reolwyr yn gweithio ar y cyd a phartneriaid er mwyn deall gofynion poblogaeth Merthyr Tudful gan ganolbwyntio ar ddulliau ataliol er mwyn ymateb i ofynion gofal a chymorth. O ran cyllidebau'r Cyngor, dyfarnodd Setliad Refeniw 2021/22 gynydd o 4.64% i Ferthyr Tudful Golygodd hyn

gynydd ariannol o £2.783 miliwn a dderbyniwyd yn ddiolchgar gan y Cyngor. Mae'r Tim Craidd wedi cynghori y dylai'r adnoddau a ddaw yn sgil y setliad da hwn gael eu defnyddio'n ddoeth er mwyn datblygu gwydnwch ar gyfer y dyfodol. Yn anffodus, yn sgil cyflwr cyllidebau cyhoeddus, mae'n debygol iawn y bydd gwariant cyhoeddus yn cael ei dynhau eto yn y dyfodol ac y bydd cynni yn parhau. Mae meddu ar gyllid digonol a chpasiti yn parhau i fod yn un o'r risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Fel y bydd pethau'n datblygu, bydd diweddariadau pellach ar gynllun trawsnewid y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Anelu'n Uchel yn ennill gwobr genedlaethol

Rhaglen Rhannu Prentisiaethau Anelu'n Uchel Blaenau Gwent a Merthyr Tudful a enillodd Wobr Cyflogwr Mawr y Flwyddyn yn seremoni rithwir Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2021 yn Mehefin.

Cafodd y Rhaglen Rhannu Prentisiaethau ei chreu chwe blynedd yn ôl i fynd i'r afael â lefelau diweithdra uchel a lefelau sgiliau cymharol isel yn y diwydiant gweithgynhyrchu ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful.

Eisoes, cafodd 123 o brentisiaid a nifer o gwmnïau fudd uniongyrchol o ddulliau gweithredu arloesol y rhaglen. Caiff y dysgwyr eu cylchdroi o gwmpas nifer o gyflogwyr er mwyn llenwi bylchau sgiliau trwy gael hyfforddiant yn y gwaith a chwblhau unedau tuag at eu prentisiaeth.

Roedd Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2021 yn dathlu llwyddiant eithriadol ym myd hyfforddiant a phrentisiaethau ac roedd 35 o ymgeiswyr yn y rownd derfynol mewn 12 categori.

Y gwobrau oedd uchafbwynt y flwyddyn i'r byd dysgu seiliedig ar waith. Roeddent yn rhoi sylw i fusnesau ac unigolion oedd wedi rhagori yn Rhaglenni Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau Llywodraeth Cymru ac wedi mynd yr ail filltir i lwyddo yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Trefnwyd y gwobrau ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW). Openreach, busnes rhwydwaith digidol y Deyrnas Unedig a chwmni sy'n frwd o blaid prentisiaethau, oedd y prif noddwr.

Caiff y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru ei hariannu gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae 50,360 o bobl ledled y de-ddwyrain wedi elwa ar Raglenni Prentisiaethau Llywodraeth Cymru ers mis Mai 2016.

Sefydlwyd Rhaglen Rhannu Prentisiaethau Anelu'n Uchel yn wreiddiol yn 2015 pan sylwodd Bwrdd Ardal Fenter Glyn Ebwy bod prinder gweithwyr â sgiliau Lefel 3 ac uwch ym Mlaenau Gwent. Ar ôl dwy flynedd, ymunodd Merthyr Tudful â nhw i geisio sicrhau twf busnesau a gwella sgiliau gan ostwng lefelau diweithdra.

Erbyn hyn, mae Anelu'n Uchel yn cydweithio â Choleg y Cymoedd a Choleg Merthyr Tudful i feithrin y genhedlaeth nesaf o weithwyr medrus. Gwnânt hyn trwy gynnig prentisiaethau mewn Peirianeg Drydanol, Peirianeg Fecanyddol, TGCh, Gwyddoniaeth Gymhwysol, Peirianeg Ansawdd ynghyd â Gweinyddu Busnesau, Gweinyddu Masnachol, a Chyllid.

Rhewi prisiau prydau ysgol am eleni

Ni fydd pris cinio ysgol ym Merthyr Tudful yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cytunodd cyfarfod o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol llawn y dylid rhewi pris cinio ysgol ar gyfer 2021/22 am yr ail flwyddyn o'r bron.

Yn Ebrill 2019, cododd y pris 20c, i £2.30 mewn ysgolion cynradd ac i £2.70 mewn ysgolion uwchradd.

Clywodd aelodau i'r penderfyniad gael ei ystyried y llynedd yn sgil y pandemig a'r ymyriad i ddarpariaeth y gwasanaeth.

Ni ddarparwyd unrhyw brydau ysgol yn ystod tymor yr haf 2020 a chynigwyd bwydlen gyfyngedig yn ystod tymor yr hydref.

Dyweddodd Sue Walker, y Prif Swyddog Dysgu: "Tra bod ysgolion yn setlo i dderbyn gwasanaethau mwy normal

a'n bod ni'n monitro effaith unrhyw newidiadau ym mhrisiau'r darparwyr a hynny yn sgil Brexit a'r pandemig, ni fyddai'n iawn i ni ystyried codi'r prisiau.

"Cafodd ei gynnig a'i gytuno gan aelodau y dylai pris prydau ysgol, yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd barhau'r un fath a bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal fel rhan o'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23."

Y Fenter Nofio am Ddim yn Dychwelyd

Gall preswylwyr Merthyr sydd yn iau na 16 oed neu sydd yn hŷn na 60 oed nofio am ddim bellach, trwy gydol yr wythnos yng Nghanolfan Aberfan a hynny yn sgil dychweliad y Fenter Nofio am Ddim Genedlaethol.

Mae Heini Merthyr ac Adran Datblygu Chwaraeon CBSMT yn gweithio ar y cyd â LlesMerthyr er mwyn ailwampio'r Fenter Nofio am Ddim flaenorol a chaniatáu i breswylwyr sydd yn yr ystod oed cywir i ddefnyddio'r pwll yn ystod amseroedd sydd yn gyfleus iddyn nhw gan wneud y gorau o gyfleoedd nofio tra bydd pyllau Canolfannau

Hamdden Merthyr yn parhau i fod ar gau.

Dylai preswylwyr (neu rieni / gwarchodwyr plant iau) gysylltu â Chanolfan Gymunedol Aber-fan ac Ynysowen er mwyn gwneud cais am le nofio am ddim.

Mae datblygiadau pellach i'r Fenter Nofio am Ddim, gan gynnwys dychweliad gwersi a sesiynau strwythuredig yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd a'r gobaith yw y bydd dychweliad graddol i gyfleoedd nofio.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â dan.buften@merthyr.gov.uk



Cynllun Hamdden Cartrefi Gofal

Mae Cartrefi Gofal Merthyr Tudful yn derbyn cymorth i wella iechyd a llesiant eu preswylwyr a hynny mewn cynllun newydd sydd wedi ei drefnu ar y cyd â Heini Merthyr, Adran Datblygu Chwaraeon CBSMT ac mewn partneriaeth â LlesMerthyr.

Mae'r cynllun sydd yn cael ei ariannu trwy Gynllun Hamdden Egniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheini sydd dros 60 oed a rhaglen Super Agers dros 50 oed Cwm Taf wedi derbyn amrywiaeth o offer ymarfer corfforol gan gynnwys byrddau tenis bwrdd a bowllo mewn cartrefi gofal.

Mae rhai lleoliadau, lle yr oedd angen gwneud hynny wedi derbyn cymorth i gyrchu darpariaeth ar-lein a darparwyd ceblau HDMI, seinyddion ac offer TG eraill.

Fel rhan o'r rhaglen, mae LlesMerthyr yn awr wedi lansiio sesiynau Aerobig newydd o'r Gadair Freichiau a hynny'n benodol ar gyfer preswylwyr mewn cartrefi gofal sydd yn ymuno â sesiwn ar-lein, fyw yn wythnosol. Cynhelir y sesiynau gan hyfforddwyr profiadol LlesMerthyr.

Bydd cyfleoedd pellach yn cael eu trefnu eleni a fydd yn caniatáu i gartrefi gofal ddatblygu eu rhaglenni ymarfer corfforol eu hunain yn y dyfodol gan dderbyn cymorth gan Heini Merthyr.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â kate.gray@merthyr.gov.uk



Ymweliad cyntaf ag ysgol fel Gweinidog – i Ysgol Santes Tudful

Ysgol Santes Tudful ar Heol Pant-y-ffin oedd yr ysgol gyntaf i Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg newydd Llywodraeth Cymru ymweld â hi yn ei rôl newydd.

Dyweddodd Llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru: "Roedd e wrth ei fodd gyda'r croeso cynnes, a gwnaeth e wirioneddol fwynhau cwrdd â'r staff a'r disgyblion, gan weld yr holl waith gwyh mae'r plant yn ei wneud cyn bod y Cwricwlwm newydd i Gymru yn statudol o fis Medi 2022."

Dyweddodd y Pennaeth Lynne Rose-Jones: "Roedd yn ffrind gennym groesawu Mr Miles i Ysgol Santes Tudful ar gyfer ei ymweliad cyntaf fel Gweinidog Addysg cawsom ein calonogi gymaint ei fod wedi dewis ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg.

"Treuliodd e amser gyda phob un dosbarth gan feithrin perthynas gyda'n disgyblion a staff. Mae'r dyfodol a'r cwricwlwm newydd mewn dwylo diogel yn ein barn ni."



Gorsaf fysiau newydd yn derbyn peiriant llenwi poteli yn dilyn galw gan ddisgyblion

Mae gorsaf fysiau newydd Merthyr Tudful wedi derbyn peiriant llenwi poteli dŵr wedi i ddisgyblion mewn ysgol gynradd, leol berswadio Cyngorwyr bod galw amdano

Cyfranogodd saith aelod o Gyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair mewn cyfarfod ar Teams gyda'r Cabinet er mwyn lleisio'u syniad mewn cyflwyniad ar-lein yn gynharach eleni.

Yr ysgol oedd y gyntaf ym Merthyr Tudful i dderbyn Dyfarniad AUR Parchu Hawliau UNICEF ar gyfer ysgolion yn 2018 a llwyddodd y deg disgybl 11 oed i berswadio'r Cyngorwyr fod cael dŵr yfed, glân yn yr orsaf yn hanfodol ar gyfer

iechyd a llesiant pobl.

"Mae'r uned yn ei lle bellach yn y prif gyntedd," meddai Ross Williams, Arweinydd y Prosiect ar gyfer y prif contractwr, Morgan Sindall. "Mae hyn yn gyfan gwbl o ganlyniad i waith caled, angerdd a gwaith tîm Cyngor Ysgol y Santes Fair a'i hymroddiad i newid cadarnhaol.

"Mae Cyngor yr Ysgol wedi gweithio'n galed ar y cyflwyniad ac wedi ymchwilio pob agwedd yn drwyadl. Roedd arwyddion clir iddynt roi ystyriaeth i bawb, nid hwy eu hunain yn unig ac roeddent yn cynrychioli'r gymuned leol ac eraill."

Gwobr Fawr y Galon Fawr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi llongyfarch Calon Fawr Merthyr Tudful wedi i'r dref gael ei henwi'n un o bartneriaethau busnes canol tref gorau'r DU.

Mae Ardal Gwella Busnes Merthyr Tudful (AGB) wedi ennill statws achrediad swyddogol gan AGB Prydain.

Dyfernir y wobr bwysig am lywodraethu da, systemau ariannol cryf a thryloywder. Calon Fawr Merthyr Tudful yw un o'r 27 AGB yn y DU i gyflawni'r achrediad.

Mae dros 200 o siopau a busnesau ym Merthyr Tudful yn cyfrannu at yr AGB er mwyn hyrwyddo'r dref, croesawu ymwelwyr a chreu amgylchedd masnachu iach. Mae achrediadu'n golygu fod gan fusnesau sicrwydd eu

bod yn derbyn gwerth am arian gan AGB sydd yn cael ei rheoli'n dda.

Dywedodd Elizabeth Bedford, Rheolwr Calon Fawr Merthyr Tudful: "Mae'n anrhydedd enfawr i'r dref ac mae'r amseru'n berffaith wrth i siopau a busnesau ailagor. Mae canol ffyniannus ein tref ar agor i groesawu ymwelwyr unwaith yn rhagor."

"Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd marchnata parhaus trwy gydol y flwyddyn er mwyn cynorthwyo busnesau. Maes arall yr ydym yn rhoi blaenoriaeth iddo yw anghenion digidol cwmnïau a hynny ar adeg pan mae busnesau'n edrych ar e-fasnachu'n fwy nag erioed ond mae'n debygol y bydd hi'n flwyddyn nesaf cyn y bydd yr AGB yn gallu

aildechrau ei rhaglen ddigwyddiadau poblogaidd a fydd y cynnwys y gwyliau bwyd a chili blynnyddol."

Dywedodd y Cyngorydd Geraint Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio: "Er gwaethaf amgylchiadau anodd y flwyddyn a fwy diwethaf, mae Bwrdd AGB a'r staff wedi parhau i arddangos llywodraethu da, rheolaeth staff a chyfathrebiadau â thalwyr ardolau.

"Mae'n cynnig gwasanaeth rhagorol i'w aelodau ac mae'n cynorthwyo busnesau i godi yn ôl ar eu traed gan sicrhau fod canol ein tref yn brysor unwaith yn rhagor."

Plogio i godi arian yn Ysgol



Yn ddiweddar, ymunodd Arweinydd CBSMT, y Cyngorydd Lisa Mytton ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdogol, y Cyngorydd David Hughes â phlant o flynyddoedd 5 a 6 Ysgol Abercannaid wrth iddynt fod allan yn y gymuned yn Plogio.

Loncian a chasglu sbwriel ar yr un pryd yw plogio – menter nad yw'n unig yn annog ymarfer corff ond sydd hefyd yn grêt ar gyfer amgylchedd y

gymuned hefyd!

Mewn llai nag awr, llanwodd y disgyblion a'r Cyngorwyr ddau fag du yn llawn sbwriel.

Ar yr achlysur hwn roedd disgyblion yn codi arian hefyd ar gyfer beiciau a threiciau newydd i'w cymheiriaid iau, ar ôl cael eu noddi gan ffrindiau ac aelodau o'r teulu. Roedd pob disgybl y Fforwyr (Cyfnod Sylfaen) yn anelu at gerdded 2000 o gamau a phob disgybl

yr Arloeswyr (Cyfnod Allweddol 2) yn anelu at gerdded 5000 o gamau. Llwyddodd pawb i gyflawni'r targed am eu bod mor benderfynol o wneud hynny.

Dros gyfnod o wythnos, cododd yr ysgol £1,521 a gaiff ei ddefnyddio i brynu beiciau a threiciau ar gyfer adran y Fforwyr.

Cynlluniau ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymdogol

Gallai Canolfan Dysgu Cymdogol y Cyngor yn y Gurnos gael ei throi'n 'ganolfan lety unigryw' i breswylwyr ifanc gan ddarparu lle iddynt fyw ynddo a hyfforddiant ar y safle.

Ers 24 mlynedd bu'r adeilad yn ganolfan addysgiadol sy'n helpu pobl ifanc ddi-waith ac oedolion i gael swyddi mewn amrywiaeth o alwedigaethau gan gynnwys gwaith saer, plymio ac adeiladu, trin gwallt, a chrochenwaith a gwaith cerameg.

Fel rhan o brosiect Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf, byddai'r gweithdai'n cael ei hadleoli – gan adael y cyfleusterau hyfforddi ble maen nhw – gydag un o'r pedwar bloc o adeiladau yn cael ei drawsnewid i fod yn bump o fflatiau hunan gynhaliol.

Ar hyn o bryd mae gan y CDC uned trin gwallt ag offer salon proffesiynol, o'dyn crochenwaith a gweithdy cerameg – a'r cynllun yw annog

preswylwyr lleol hefyd i ddefnyddio'r ganolfan drwy gynnig dosbarthiadau Cymdogol ar yr un sgiliau.

Mae'r Cyngor derbyn cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer cyllid i'r prosiect oddi wrth Raglen Cyfalaf Disgresiwn Cronfa Gofal Integredig Cwm Taf Morgannwg, sydd wedi dynodi gwaith gyda phobl ifanc a phlant sy'n derbyn gofal fel blaenoriaeth allweddol.

"Gwyddom, ers nifer o flynyddoedd fod y Ganolfan Dysgu Cymdogol wedi bod yn agwedd bwysig o fywydau llawer o bobl. Mae wedi eu helpu i ennill sgiliau a swyddi," dywedodd y Pennaeth Adfywio a Thai, Chris Long. "A bydd y rôl honno yn parhau.

"Fodd bynnag, mae'r adeiladau eu hunain wedi gweld dyddiau gwell, a bydd yr ailddatblygu hwn yn eu trawsffurfio'n llety modern a diogel gydag ystafelloedd staff cefnogi,

gwelliannau i du blaen pob bloc o'r adeilad a gwell mynediad at barcio," ychwanegodd.

"Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i gyflenwi 20,000 o dai fforddiadwy rhwng 2016 a 2021. Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i fodloni'r targedau hyn ac rydym am sicrhau fod yna ddigon o dai addas a fforddiadwy i fodloni'r angen am dai ym Merthyr Tudful.

"Mae'r Ganolfan Dysgu Cymdogol yn creu cyfle i helpu gyda'r galw hwn, gan ddarparu canolfan unigryw fel llety ble fydd y tenantiaid hefyd yn gallu cael mynediad at hyfforddi ar y safle a allai arwain at addysg bellach drwy fynychu eu coleg lleol a chyflogaeth yn y dyfodol.

"Mae'n bwysig ein bod ni'n arloesi ar gyfer ein pobl ifanc gan roi'r cyfle iddynt fod yn uchelgeisiol ac yn optimistig am eu dyfodol."

Swyddi 'Kickstart' ar gyfer 21

Mae'r Cyngor yn falch iawn o fod wedi gallu cyflogi 21 o bobl drwy ei 'Borth' at gynllun Kickstart yr Adran Waith a Phensiynau.

Rydym wedi derbyn nawdd i greu lleoliadau gwaith chwe mis o hyd i bobl ifanc ddi-waith, gan dalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Mae dipyn mwy o recriwtio ar droed gan fod 74 o swyddi gwag yn parhau i aros i gael eu llenwi. Mae swyddi ar gael i dorwyr glaswellt, casglwyr sbwriel ac rydym yn y broses o drefnu digwyddiad recriwtio yng Nghanolfan Waith Merthyr fel bod rheolwyr yn gallu cwrdd ag ymgeiswyr posibl. Mae dyddiad y digwyddiad i'w gadarnhau ar wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor.

Mae'r 21 o leoliadau gwaith a sicrhawyd yn ymwneud â

Gwasanaethau Cymdogol, TGCh, a'r Ganolfan Dysgu Cymunedol.

Dywedodd y Rheolwr Cyflogadwyaeth, Deb Ryan-Newton: "Mae'r gweithwyr newydd wedi setlo fewn yn dda ym mhob rôl, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i weithlu'r Cyngor a'r gymuned.

"Bydd ganddynt fynediad at lwythi o gyfleoedd hyfforddi a fydd yn cydweddu'r profiad yn y lleoliad gwaith, a'u galluogi i wella eu hapêl i gyflogwyr y dyfodol ar ôl i'w lleoliad ddod i ben."

Caiff rhagor o swyddi eu cyflwyno dros y misoedd nesaf, a dylai unrhyw un rhwng 16-24 oed, sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac sydd â diddordeb, siarad gyda'u Hyfforddwyr Gwaith yn y Ganolfan Waith er mwyn cyflwyno cais.



Byw fydd enw John ar drac Afon Taf

Mae'r Cyngor yn falch iawn fod trac rhedeg yn Ysgol Uwchradd Afon Taf wedi cael ei ailddatblygu a'i enwi ar ôl John Sellwood, sef y cyn Bennaeth Diwylliant, Hamdden a Chwaraeon a fu farw y llynedd o Covid-19.

Roedd John yn gweithio ar y brosiect codi arian i ailddatblygu'r trac mawr ei angen yn Afon Taf, ble yr oedd hefyd yn is-gadeirydd y llywodraethwyr.

Gwnaeth tîm John yn Heini Merthyr, barhau gyda'i waith gan weithio ar y cyd ag Afon Taf a sicrhau cyllid i'r prosiect, gyda chefnogaeth oddi wrth Chwaraeon Cymru.

Dywedodd Rheolwr Heini Merthyr, Dan Bufton: "Roedd angerdd John dros chwaraeon a'r gymuned heb ei ail, ac rydym wedi ymroi i gynnal yr angerdd hwnnw er cof am John."

"Roedd y prosiect hwn yn rhywbeth yr oedd John yn benderfynol o'i wireddu. Gallwn siarad yn drosiadol a dweud er ein bod wedi croesi'r llinell derfyn gyda hwn, John oedd yr un wnaeth drosglwyddo'r baton i ni.

"Mae'n ffantastig gallu gweld cymynrodd parhaol John yn y gymuned. Bydd hwn yn gyfleuster ffantastig i'r gymuned a John yw'r un a oedd yn ei yrru

ymlaen yn y camau cychwynnol. Mae'n grêt bod pobl yn gallu cofio am John bob tro y byddan nhw'n camu ar y trac."

Dywedodd Is-Bennaeth Afon Taf, Stephen Baber: "Roedd John yn gyn-ddisgybl, yn llywodraethwr ac yn gyfaill ffantastig i Afon Taf. Cafodd ei farwolaeth effaith fawr ar bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

"O'r eiliad y cafodd y cyllid ei sicrhau ar gyfer ailddatblygu'r trac, doedd dim amheuaeth beth fyddai'r trac yn cael ei alw. Roedd y cyfan yr oedd John yn sefyll drosto yn ymwneud â'r gymuned, a meithrin cariad at chwaraeon ac at ymarfer corff."

Dywedodd Ellis Cooper, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

"Roedd bywyd John yn cylchdroi o gwmpas chwaraeon – roedd yn chwarae mewn timau ac yn eu hyfforddi, roedd yn rheoli cyfleusterau a rhaglenni ac yn gwirfoddoli yn ei amser hamdden i helpu clybiau a grwpiau i ffynnu. Byddai fe wedi bod mor falch o weld y trac hwn, y gwnaeth e ymgyrchu i'w wella, yn cael ei enwi ar ei ôl. Mae'n deyrnged teilwng a fydd yn sicrhau bod y cof amdano'n parhau."

Record yn nifer y prosiectau sy'n derbyn nawdd Ffos-y-fran

Mae grwpiau cymunedol Merthyr Tudful wedi derbyn swm o arian sydd yn record oddi wrth raglen ail-fuddsoddi elw cynllun adennill tir Ffos-y-fran.

Cafodd Cynllun Grantiau Canolradd Ffos-y-fran ddyfarniad o fwy na £80,000 i 35 o grwpiau lleol sy'n rhedeg prosiectau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau i wella llesiant corfforol a meddyliol.

Yn eu plith mae Clwb Canŵio Aberfan, a dderbyniodd £1,500 am offer ychwanegol; Clwb Merched y Pant, a dderbyniodd £2,500 ar gyfer cit pêl-droed; a Chlwb Triathlon Merthyr, a dderbyniodd £2,418 ar gyfer beiciau benthyg.

Cafodd Rhaglen Cronfa Budd-daliadau Cymunedol Ffos-y-fran ei sefydlu gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol mewn cydweithrediad â chwmni glofaol lleol, Merthyr (De Cymru) Cyfyngedig.

Mae'n rhoddi £1 am bob tunnell o lo a werthir ac ers i'r safle agor yn 2007, cafodd mwy na £6m ei

ddyfarnu i amrywiaeth eang o grwpiau ac achosion.

Mae'r Cynllun Grantiau Canolradd yn dyfarnu hyd at £5,000. Ceir hefyd Gynllun Grantiau Bach o hyd at £1,000 sy'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn a gellir cael mynediad ato drwy gynghorwyr lleol.

"Gwnaeth y panel dderbyn nifer digynsail o geisiadau y tro hwn a chafwyd record o ran y nifer o brosiectau a ariannwyd," dywedodd Aelod Cabinet dros Adfywio, Gweddnewid a Masnacheiddio, y Cyngorydd Geraint Thomas.

"Roedden ni'n hynod o falch fod gymaint o geisiadau wedi cydnabod pwysigrwydd helpu pobl i fod yn actif ac edrych ar ôl eu hiechyd corfforol a meddyliol."

Cadwch lygad ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor dros y misoedd nesaf wrth i ni ganolbwyntio ar yr hyn mae ein grwpiau llwyddiannus yn ei wneud gyda'u gwobrau.

Castell Morlais am fod yn ganolbwynt cymunedol



Yn dilyn gweddnewidiad trawiadol, bydd tafarn hanesyddol arall ym Merthyr Tudful yn ailagor, diolch i gefnogaeth Tim Adfywio'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a dau gynllun a ariannwyd gan grantiau cenedlaethol.

Pan fydd hi'n ailagor dros y penwythnos, bydd y Morlais Castle Inn, sydd wedi bod ar gau am fwy nag 20 mlynedd, yn cynnig llety preswyl, bwytaï mewnol ac allanol, cerddoriaeth fyw a nosweithiau thematig ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal.

Cafodd yr adeilad ei brynu a'i ailddatblygu gan y cwmni lleol GTH Developments am fwy na £500,000. Derbyniodd y cwmni Grant Byw yng

Nghanol y Dref o £250,000 gan fenter Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a chyllid o £159,000 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda'r datblygwyr yn cyfrannu dros £100,000.

Yn sgil yr ailddatblygiad, cafodd y llawr cyntaf a'r ail lawr eu troi'n fflatiau preswyl gyda cheginiau ac ystafelloedd ymolchi newydd, man parcio ceir yn y cefn a gwelliant i'r mynediad. Cafodd ffasâd yr adeilad a oedd mewn cyflwr gwael, ei adfer.

Mae'r llawr gwaelod a'r islawr yn cynnwys ardal berfformio fyw, bar seler, ardaloedd bwyta mewnol ac allanol, lloriau a nenfydau newydd, bar derw a gomisiynwyd yn arbennig a'i saerïo â llaw, a gosodiadau a ffitiadau traddodiadol a chyfoes.

Mae'r dafarn yn cael ei phrydlesu gan gwpl sy'n meddu ar brofiad helaeth yn y maes lletygarwch, a'u nod oedd rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned trwy adfywio hen sefydliad, darparu swyddi a chreu man cyfarfod i bobl o bob oed.

Mae Dayle Evans, a aned ym Merthyr Tudful, wedi gweithio yn y sector lletygarwch ar hyd ei oes. Ar un adeg, roedd e'n rheoli'r dafarn, y bwyty a'r clwb nos mwyaf yn Swydd Gaerwrangon ac yn gyfrifol am fusnes â throsiant yn agos i £3m. Mae Kirsty, partner Dayle, yn rheolwr tafarn profiadol, er ei bod hi ar hyn o bryd yn fam lawm-amser i'w mab Noah.

Credir bod yr adeilad wedi'i godi yn gynnar yn Oes Fictoria, ac mae'n ymddangos mewn delweddau hanesyddol a briodolwyd i'r 1800au.

Ond cafwyd addasiadau dros amser, gan gynnwys to a ffenestri newydd, ac mae ochr flaen y siop a fframiau'r drws a oedd mor amlwg yn y delweddau hanesyddol, wedi'u colli hefyd.

Gwnaed yr adnewyddiad presennol fel rhan o Fenter Treftadaeth Treflun Pontmorlais, sy'n adfer ymddangosiad canol y dref hanesyddol trwy ailosod llawer o'r hen nodweddion megis blaenau siopau, ffenestri codi pren, rendradau traddodiadol, llechi naturiol ar y toeau a chafnau dŵr glaw o haearn bwrw.

Dywedodd James Howe, Prif Swyddog Gweithredol GTH Developments, fod y cwmni wedi gweld cyfle delfrydol yn y Morlais Castle Inn i adfywio adeilad eiconig oedd yn dwyn llawer o atgofion melyn i drigolion lleol. Ychwanegodd: "Yn ystod y gwaith adnewyddu, byddai nifer o bobl yn holi pryd y byddai'r adeilad yn ailagor ac yn adrodd eu straeon am yr adeg pan oedden nhw'n mynychu'r dafarn."

"Ryn ni'n gwmni lleol sy'n teimlo ei bod hi'n bwysig inni ailddatblygu adeiladau ym Merthyr Tudful sydd hefyd yn dod â refereniw i'r dref. Mae pob busnes a masnachwr a ddefnyddiwn ni'n rhai lleol ac mae hynny'n help i hybu'r economi leol ac o fudd i bawb trwy ddarparu swyddi, creu refereniw treth, a gwella bywyddau'r preswylwyr."

Y dafarn hefyd yw prosiect diweddaraf y cynllun Yn y Cyfamser a drefnwyd gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol ac sy'n gyfrifol am lawer o'r adfywiad presennol yn y dref.

Ydych chi wedi gweld ein biniau 'Ailgylchu'?

Diolch i gais llwyddiannus am arian gan ein tîm gwasanaethau gwastraff, bydd 120 o'n biniau stryd yn cael eu huwchraddio i gynnis opsiwn ailgylchu deunyddiau ar wahân i ddefnyddwyr.

Mae'r biniau'n cael eu hadnewyddu

ledled Merthyr Tudful dros fisoedd yr haf, felly edrychwch allan amdany'n nhw!

Ein gobaith yw y bydd hyn yn helpu i gynyddu ailgylchu a lleihau sbwriel – gan wella ein gwagleodd cyhoeddus i breswylwyr ac ymwelwyr hefyd.



Oeddech chi'n gwybod...?

Mae gosod gwastraff cartref oddi fewn neu gerllaw i fin sbwriel cyhoeddus yn dipio anghyfreithlon! Dylid defnyddio biniau sbwriel stryd ar gyfer sbwriel stryd YN UNIG. Dylech ddefnyddio eich bin sbwriel du ar olwynion neu ch blychau ailgylchu er mwyn dyddodi gwastraff cartref a'u gosod allan ar ddiwrnod eich casgliad wrth ymyl y cwrw. Dylai unrhyw wastraff ychwanegol gael ei gludo i'r canolfannau gwastraff cartref ac ailgylchu yn Nowlais neu Aber-fan. Bydd unrhyw wastraff a fydd yn cael ei adael yn neu gerllaw bin sbwriel cyhoeddus yn cael ei archwilio n llawn a gallai hyn arwain at erlyniad.

Cyfyngu ar fynediad i gerbydau ym Mynwentydd Pant a Chefn

Yn dilyn problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol hanesyddol gan gynnwys tipio anghyfreithlon sylweddol, bydd gatiâu mynediad i fynwentydd Pant a Chefn yn cau gyda'r nos bellach.

Dywedodd y Cyngorydd Declan Sammon: "Mae hyn yn rhywbeth yr ydw i a'r Cyngorydd David Hughes wedi bod yn gweithio arno ers cryn dipyn o amser, a gobeithio, gyda bod mynediad i gerbydau i'r fynwent wedi stopio yn ystod oriau tywyllwch, y bydd hynny'n rhoi tawelwch meddwl i lawer o deuluoedd."

"Hoffwn ddiolch i'r Grŵp Annibynnol am fod mor gefnogol wrth ddod â'r broblem hon at sylw'r Cyngor Llawn, ac i fy holl gyd Gynghorwyr am bleidleisio o blaid cyfyngu mynediad yn y nos i'r Mynwentydd hyn sydd wedi cael eu plagio gan ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon."

Bydd y gatiâu ar gau fel a ganlyn:

Misoedd yr haf (1 Ebrill – 30 Medi): 8pm-8am

Misoedd y gaeaf (1 Hydref – 31 Mawrth) 5pm-8am

Ni fydd mynediad i gerddwyr yn newid.



Gosod paneli solar yn y canolfannau ailgylchu

Fel rhan o uchelgais y cyngor i ddadgarboneddio cawsom lwyddiant yn sicrhau arian Cronfa'r Economi Gylchol ar gyfer 2 x panel solar yn ein canolfannau ailgylchu.

Cwblhawyd eu gosod yn llwyddiannus

ac yn brydlon ac o fewn cyllideb ym mis Mehefin 2021.

Bydd y gosodiadau hyn yn helpu i leihau ein hallyriadau carbon, gan hefyd leihau costau rhedeg y ddwy ganolfan!



TORRI GLASWELLT A BIOAMRYWIAETH

A oeddech chi'n gwybod...

Mae 16 o'n safleoedd glaswelltir, ledled y fwrdeistref sirol yn awr yn cael eu rheoli gan ein peiriannau 'torri a chasglu' newydd a brynwyd trwy grant Lleoedd Lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer Natur.

Mae hyn yn golygu fod 4.5 hectar o laswelltir lleol yn awr yn cael

eu rheoli'n unigswydd ar gyfer bioamrywiaeth – mae hynny'n cyfateb i oddeutu 8 cae pêl-droed!

Efallai y byddwch yn gweld rhai o'n arwyddion yn yr ardaloedd hyn, er mwyn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn eu rheoli ar gyfer peiliio a blodau gwylltion.

Bydd y mesurau hyn yn gymorth i amddiffyn ein peillyddion gan ddod â natur yn ôl i stepen ein drysau.



Preswylwyr yn cytuno ar drefniadau i osod camerâu cyflymder cyfartalog

Yn dilyn dwy rownd o ymgynghoriadau, mae preswylwyr Ynys Owen a Bryn Teg wedi cytuno y dylid gosod camerâu cyflymder cyfartalog ar y rhan o'r A4054, Heol Caerdydd sydd yn mynd trwy'r pentrefi.

Yn ystod cam un yr ymgynghoriad, cytunodd 98% o'r sawl a holwyd, a oedd yn cynnwys preswylwyr a'r cyhoedd fod goryrru yn broblem ar hyd y ffordd a chytunodd 80% fod angen mesurau i ostegu'r traffig.

Yn ystod cam dau, cytunodd 78% y dylai camerâu cyflymder cyfartalog gael eu gosod.

Dyweddodd y Cyngorwyr Ward, Darren Roberts a Scott Thomas: "Yn dilyn nifer o ddamweiniau a

chwynion ynghylch goryrru trwy Ynys Owen a Bryn Teg, gofynnwyd i'r Awdurdod Lleol i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn clywed sylwadau a phryderon y preswylwyr a defnyddwyr y ffordd.

"Hoffem ddiolch i bawb a gyfranogodd ac rydym yn croesawu'r canlyniad. Bydd ychwanegu camerâu cyflymder cyfartalog yn yr ardal yn sicrhau fod y rhan hwn o'r ffordd rhwng y ddau bentref yn fwy diogel i bawb, gan gynnwys plant sydd yn defnyddio'r ffordd i gerdded i'r ysgol.

"Fel eich Cyngorwyr Ward, bŵm yn gwrandao ar eich pryderon gan weithredu arnynt a darparu'r hyn y gofynnwyd amdano gan y preswylwyr. Hoffem hefyd ddiolch i swyddogion yr Awdurdod Lleol a fu'n cynorthwyo i ddarparu'r deiliant cadarnhaol hwn."

Bydd Swyddogion y Cyngor yn awr yn cydlynu â Gan Bwyll, yr Heddlu a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau fod y camerâu'n cael eu gosod a rhagamcanir y bydd y gwaith yn mynd rhagddo ym mis Medi.

O ganlyniad i'r arolwg hwn a'i ganfyddiadau, byddwn yn awr yn ymgynghori â phentrefi eraill sydd ar hyd y ffordd er mwyn gweld a oes angen gosod rhagor o gamerâu cyflymder cyfartalog rhwng Mynwent y Crynwyr a Phentrefach.

Rhowch ail gyfle i'ch hen eitemau trwy fynd â nhw i siop ailgylchu "Bywyd Newydd" ym Merthyr Tudful!

Mae'r siop ym Mhentre-bach yn cael ei rhedeg gan Wastesavers sy'n fenter gymdeithasol yn y trydydd sector ac yn elusen gofrestrddig a leolwyd yn neddwyrain Cymru. Mae hon yn fenter sydd wedi ymroddi'i hun i gynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor, nod y fenter yw dargyfeirio cynifer o eitemau â phosibl o safleoedd tirlenwi trwy roi lle i bobl fynd â'u heitemau diangen a'u gwerthu am bris gostyngedig. Mae'r elusen hefyd yn sicrhau bod gan bobl fynediad at bethau fel dodrefn a TG trwy roi rhoddion i sefydliadau lleol i'w dosbarthu ymhlith teuluoedd ac unigolion sydd eu hangen.

Agorodd y siop "Bywyd Newydd" ei drysau ar 12 Ebrill 2021 ac o fewn un mis, arbedodd dros 2,500 o eitemau rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Dywedodd Beth Rosser, Rheolwr Rhanbarthol Wastesavers: "Rydym ni wedi cael ymateb anhygoel gan bobl ers inni agor. Mae cwsmeriaid yn dweud wrthym ni'n gyson na allan nhw greu'r hyn y mae pobl yn ei daflu. Mae trigolion hefyd wrth eu boddau â'r syniad fod gan eu heitemau diangen y cyfle i fynd i gartref newydd yn hytrach na sgip."

Dyweddodd Alun Harries, Rheolwr yr Elusen Wastesavers: "Rydym ni'n falch iawn fod y siop "Bywyd Newydd" wedi cychwyn mor dda, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau COVID.

"Ond mae hyn yn ymwneud â mwy nag arbed eitemau a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi.

"Rydym ni wedi creu tair swydd newydd



Oeddech chi'n gwybod eich bod chi bellach yn gallu casglu bagiau gwastraff bywyd a bagiau ailgylchu batris oddi wrth siop Bywyd Newydd!



a digon o gyfleoedd i wirfoddoli. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y gefnogaeth a'r mewnbwn gwyb a gafwyd gan Gyngor Merthyr Tudful."

Dyweddodd y Cyngorwyr David Hughes, yr Aelod â Phortffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdogol: "Rwy'n hynod falch fod y siop hon wedi agor ei drysau ym Merthyr Tudful. Mae'n rhoi cyfle i bobl ailgylchu'u heitemau diangen trwy eu rhoi yn ôl i'r gymuned a chefnogi'r



rhai a allai fod eu hangen. Mae hynny'n deimlad gwyb i bawb sy'n cymryd rhan.

"Mae cwsmeriaid y siop yn aml yn nodi ei bod hi'n "bechod" fel y mae pobl yn taflu rhai pethau, felly penderfynon ni gael ychydig o hwyl gyda hynny heddiw!" Ble? Uned 20, Parc Diwydiannol Merthyr, Pentre-bach CF48 4DR

Pryd? Dydd Llun i ddydd Gwener 09.30 - 16.30, dydd Sadwrn 09.00 - 13.00.

FFLYD CERBYDAU CBSMT AM FOD YN DRYDANOL!

Mae gan ein tîm gweithredu'r fflyd nod o fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030, ac maen nhw wedi prynu 4 x Cerbyd Trydan a bydd 4 arall yn cyrraedd fis Medi eleni.

Bydd y cerbydau newydd, sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan ein Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu, nid yn unig yn cynhyrchu llai o CO2 am bob km o'i gymharu â'r disel cyfatebol – gan eu gwneud yn well i'r amgylchedd – ond hefyd yn darparu arbedion ariannol i'r awdurdod.

Dyweddodd y Warden, Chris Evans: "Rwy'n ymfalchïo'n fawr fy mod yn gyrru cerbyd trydan â sero allyriadau wrth gyflawni fy swydd ddyddiol o helpu preswylwyr i ailgylchu'n effeithlon. Rwy'n teimlo fy mod yn gwneud rhywbeth gwerth chweil i'r amgylchedd a'r gymuned."

Bydd y 4 cerbyd newydd, a fydd yn cyrraedd fis Medi, yn cefnogi ein gwasanaethau TG, parcio a gwastraff i deithio gan gynhyrchu sero allyriadau carbon.



Gwybod eich cyfrifoldebau Dyletswydd Gofal!

Os ydych chi'n talu rhywun i fynd â'ch sbwriel cartref neu eitemau diangen, yna mae'n rhaid i chi:

✓ Gwiriwch fod y person neu'r cwmni sy'n cymryd eich sbwriel yn gludwr gwastraff cofrestredig (ewch i

naturalresources.wales)

✓ Gofynnwch bob amser i ble mae'ch gwastraff yn mynd

✓ Keep Cadwch y dderbynnob bob amser



Adeilad ysgol yr 21ain ganrif

Mae ail gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Merthyr Tudful ar hyn o bryd yn mynd rhagddo wrth i adeilad newydd Ysgol Gynradd y Graig gael ei adeiladu.

Bydd yr ysgol newydd, sy'n cael ei hadeiladu gan Kier Construction yn hepgor hen adeilad Ysgol Gynradd y Graig. Mae'r adeilad newydd, 2 lawr

wedi ei leoli ar hen safle Ysgol y Faenor a Phenderyn yng Nghefn Coed.

Mae'r ysgol newydd oddeutu 2,142m² ac yn cynnwys ystafelloedd dysgu cyffredinol, ardaloedd arbenigol, safle adnoddau dysgu, neuadd, Ysgol Feithrin, dosbarth cyn oed ysgol, cyfleusterau arlwyio ac ystafell gymunedol ddynodedig.

Mae maes parcio newydd a ffordd fynedfa yn cael eu hadeiladu ar Safle Caeau Godre'r Coed a bydd modd cael mynediad iddo o Erddi Cyfarthfa.

Bydd yr ardaloedd cyfagos yn cael eu tirlunio â chymysgedd o ardaloedd chwarae caled a meddal.

Adeiladwyd yr ysgol i fod yn effeithlon o ran ynni:

✓ Gosodwyd 175m² o Banelu Photovoltaic ar y to a disgwylir iddynt gynhyrchu 21,285 kWh o ynni

adnewyddadwy yn flynyddol.

✓ Bydd boileru effeithlon yn gwresogi'r adeilad.

✓ Bydd to a waliau sydd wedi eu hinswleiddio'n dda yn golygu y bydd yr adeilad yn defnyddio llai o ynni ac yn cynhyrchu llai o allyriadau carbon.

✓ Bydd y dechnoleg Awyru Hybrid ddiweddaraf a fydd y cael ei rheoli gan system reoli awtomatig yn rhoi ystyriaeth i newidiadau tymhorol, tymheredd allanol ac ansawdd yr aer y

tu mewn er mwyn darparu system oeri ac awyru naturiol, effeithlon a charbon niwtral.

✓ Bydd goleuadau LED yn cael eu defnyddio trwy'r adeilad a gellir eu rheoli'n awtomatig er mwyn lleihau ynni ac allyriadau carbon.

Disgwylir i'r adeilad fod yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd ym Medi 2021



Teyrnged barhaol ysgol i gyn Bennaeth

Bydd staff a disgyblion Ysgol Y Graig, Cefn Coed, bob amser yn cofio am gyn Bennaeth yr Ysgol, y diweddar Matthew Harries wedi i fainc gael ei dadorchuddio a choeden gael ei phlannu, er cof amdano. Roedd cyn Faer Merthyr Tudful, y Cynghorydd Howard Barrett yn bresennol ar safle'r ysgol er mwyn cyflwyno'r fainc y rhoddodd ef i'r Ysgol, er cof am Mr Harries, y cyn Bennaeth.

Yn ddiweddarach, dadorchuddiwyd y fainc a phlannwyd y goeden Dderw Jiwbilî yr oedd Matthew wedi bod yn ei thyfu ar gyfer yr ysgol newydd gan Arweinydd y Cyngor ac aelod o ward Cefn Coed, y Cynghorydd Lisa Mytton a'r Cynghorydd Barrett.

Hefyd yn bresennol oedd y Pennaeth presennol, David Anstee, athrawon, disgyblion a Chadeirydd y Llywodraethwyr, Ann James – ynghyd â chynrychiolwyr o gwmni adeiladu Kier, gan gynnwys y Rheolwr Prosiect, Mark Poole.

Dywedodd y Cynghorydd Barrett: "Roeddwn am wneud rhywbeth fyddai nid yn unig yn nodi'r adeilad newydd ond a fyddai hefyd yn deyrnged barhaol i Matthew Harries, aelod hoffus o'r staff y gwelir ei eisiau'n fawr iawn."

Diweddariad Storm Dennis

Rydym yn awr wedi dechrau ar yr ail flwyddyn o'r rhaglen dair blynedd o hyd i adnewyddu ac ailadeiladu'r seilwaith a ddifrodwyd yn ystod Storm Dennis yn Chwefror 2020.

Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC,) yn ystod 15 – 16 Chwefror 2020, cofnodwyd 61 hysbysiad llifogydd, 89 rhybudd llifogydd a dau rybudd llifogydd difrifol yng Nghymru – y niferoedd mwyaf o rybuddion ar afonydd a gofnodwyd erioed yng Nghymru sydd felly'n tanlinellu difrifoldeb Storm Denis ar lwybrau dŵr lleol.

Ym Merthyr Tudful, cafwyd llifogydd mewn 232 o eiddo a'r mwyafrif ohonynt yn eiddo preswyl a rhai'n eiddo masnachol.

Yn dilyn gwaith archwilio trylwyr yn ystod y misoedd wedi Storm Dennis, dynodwyd 50 o brosiectau ym Merthyr Tudful ac amcangyfrifwyd cost o £8.5miliwn.

Mae'r gwaith adfer yn amrywio ac yn cynnwys:

- Adfer cwlffertau
- Ailsefydlu argloddiau afonydd
- Gosod sgriniau gwastraff a monitorau llifogydd mewn cwlffertau amrywiol
- Cynyddu capasiti llwybrau dŵr
- Gosod deunyddiau i atal erydu ar bontydd
- Gwaith sefydlogu mewn ardaloedd lle y cafwyd tirlithriad

Y GWAITH MOR BELLED

Yn ystod 2020 a 2021, cafodd nifer o gwlffertau eu hadfer yn Heolgerrig, Penydarren, Pentrebach, Troedryhiw, Aber-fan, Ynysowen ac yn Fiddlers Elbow. Adeiladwyd cwlffertau newydd ym Mhontsarn, Trelewis ac ym Medlinog ac mae rhagor wedi eu cynllunio ar gyfer 2021 ym Mhant a Throedryhiw.

Dioddefodd sawl arglawdd erydiad difrifol yn ystod y storm a chwbhawyd gwaith adfer ym Mharc Glan yr Afon a Heol y Felin ym Mynwent y Crynwyr. Gwnaethpwyd gwaith hefyd i atgyfnerthu Bwâu Glofa Ynysowen. Mae angen gwaith ychwanegol ym Mhontycafau ac ym Mynwent y Crynwyr.

Gosodwyd chwe monitor llifogydd mewn cwlffertau risg uchel a gwnaethpwyd gwaith adfer ar sgriniau gwastraff.

TROEDRYHIW

Dioddefodd pentref Troedryhiw llifogydd eang gan i lefelau uwch o ddŵr na welwyd erioed o'r blaen yn afon Taf achosi i ddŵr lifo'n ôl i borth Plymouth. Ni allodd y porth ddal cyfaint y dŵr yn ystod y digwyddiad hwn sydd yn digwydd fel arfer unwaith pob 200 mlynedd. Lliffod y dŵr dros yr arglawdd ac achosi llifogydd mewn 129 o eiddo.

Mae gwaith bron iawn ar ben ym Mhorth Plymouth i adeiladu arglawdd 2.5m o uchder. Cafodd y sianel ei charthu o chae arglawdd y porth wedi ei ailbroffilio er mwyn cynyddu ei gapasiti. Adeiladwyd pont droed newydd i gymryd

lle'r hen bont a achosodd gyfyngiad yn y porth.

PONTYDD

Yn syth wedi Storm Dennis, cafodd archwiliadau tanddwr eu cynnal ar bob un o'r 40 pont sydd yn croesi'r afonydd er mwyn asesu unrhyw ddifrod. Cwblhawyd y gwaith i rwystro erydiad ac ailosodwyd arglawdd gorllewinol Pont Santes Tudful ym Mehefin 2020.

Mae angen rhagor o waith adfer ar bontydd eraill. Dechreuwyd ar waith ar Bont Tyr y Wen ym Medlinog ym Mehefin 2021 ac ar Bont Fictoria ym Mynwent y Crynwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

TIRLITHRIADAU

Cafwyd wyth tirlithriad yn ystod y storm ac mae pob un ohonynt wedi cael eu harchwilio a'u hasesu gan Ymgynghorydd Peirianeg Geodechnegol annibynnol.

Mae pob un ardal ar hyn o bryd yn ddiogel, fodd bynnag, mae gwaith adfer wedi ei gynllunio ym Mhontsarn, Pontsticill, Troedryhiw ac ym Medlinog er mwyn sefydlogi'r ardaloedd hyn ymhellach a rhwystro unrhyw dirlithriadau rhag datblygu yn y lleoliadau hyn yn y dyfodol.

Archwiliwyd 131 tomen gwastraff glo, ddwywaith gan Beirianwyr Cyngor Merthyr Tudful yn ystod 2020, a chafwyd archwiliadau pellach gan yr Awdurdod Glo ar 18 tomen risg uchel a 46 tomen risg canolog ledled y fwrdeistref sirol.

Mae pob tomen wedi cael eu hasesu i fod yn ddiogel a bydd unrhyw waith adfer, bychan yn digwydd eleni.

Byddwn yn parhau i roi diweddariadau i chi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Prosiect Effeithlonrwydd Ynni REFIT



Mae pwysigrwydd lleihau allyriadau carbon yn dyfod yn fwyfwy pwysig ac mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau i'r Sector Cyhoeddus i fod yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

Mae CBSMT yn defnyddio prosiect REFIT Cymru i wneud y mwyaf o briodweddau effeithlonrwydd ynni, gwella amodau ein hysgolion, lleihau allyriadau CO2 ac arbed arian.

Mae'r rhaglen yn cefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, gan arwain at arbed arian parod drwy lai o ddefnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon.

Gyda bod dros 100 eiddo ym mhorthffolio eiddo'r cyngor, a bod gwariant ynni ar adeiladau dros £1.2 miliwn y flwyddyn, gallai'r posibilïadau fod yn sylweddol!

Amcangyfrifir y bydd y prosiect yn arbed £136,000 y flwyddyn a lleihau 251 tonnall o Allyriadau Carbon y flwyddyn.

Ymhlith y 30 adeilad sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun mae ysgolion, cartrefi gofal, adeiladau swyddfa a meysydd parcio.

Yn ogystal ag arbed arian, bydd yr adeiladau hefyd yn elwa o uwchraddio trydanol a mecanyddol, gan arwain at well amgylchedd dysgu a gwaith ac amodau mwy cyfforddus. Ymhlith y mesurau sydd i'w gosod mae:

- 30 x Uwchraddio Goleuo LED
- 9 x System Solar PV
- Systemau deallus ar gyfer gwresogi a dŵr poeth
- Inswleiddio'r to

Y Diweddaraaf am y Priffyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol tuag at atgyweirio ceubyllau a gosod arwyneb newydd ar ffyrdd ledled y fwrdeistref sirol.



Yn ystod Ebrill a Mai, gosodwyd arwyneb newydd ar 900m o droedffyrdd yng Nghefn Coed, Pontsticill, Gurnos a Threlewis. Caiff 202m pellach o droedffyrdd arwyneb newydd ym Mhenydarren yn ystod mis Mehefin.



Mae atgyweirio ceudyllau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae 645m o ffyrdd gerbydau wedi cael arwyneb newydd ym Mhenydarren, Cefn Coed a Pharc y Castell. Caiff 777m pellach arwyneb newydd yn ystod mis Mehefin yn Heol Abertawe a Phenydarren.

Diolch am ein gwahanu



#cydweithio #diolch

Merthyr Tudful yn ailgylchu
Merthyr Tydfil recycles

Diolch am gefnogi eich casgliadau ymyl y ffordd drwy gadw cardfwrdd a gwydr ar wahân!

Roedd cymysgu'r deunyddiau hyn yn peri problemau o ran halogi, difrod i beiriannau ac anafiadau i staff, ac ers dechrau eu cadw ar

wahân ym mis Ebrill rydym wedi gweld gwelliant mawr! Ariannwyd blychau ychwanegol gan Gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru.



GOFYNNON NI...

1. Yn dilyn cwynion am barcio a materion am ddiogelwch ar y ffordd, a dau gam ymgynghori gofynnion ni i breswylwyr Twynrodyn sut y gallwn ni wella diogelwch ar y ffordd yn yr ardal.

2. Gofynnwyd i ddefnyddwyr ffordd Heol Caerdydd (A4054) drwy Ynys Owen a Brynteg a oedd nhw'n credu bod angen mesurau diogelwch ar y ffordd i leihau cyflymder traffig.

Roedd hyn yn dilyn nifer o ddamweiniau ac arolwg cyflymder dilynol yn yr ardal, a ddatgelodd taw 38mya oedd y cyflymder cyfartalog mewn parth 30mya.

3. Ydych chi'n cytuno y dylai gatiâu mynediad i gerbydau ym Mynwent Llwyn Ffawydd (Edwardsville) gael eu cau gyda'r nos?

DYWEDOCH CHI...

1. Ymhlith yr awgrymiadau roedd system un ffordd, clustogau cyflymder a therfyn cyflymder o 20mya.
2. Cytunodd 98% o breswylwyr fod mesurau yn ofynnol, dywedodd 97% ohonynt fod traffig a oedd yn teithio'n rhy gyflym yn eu gwneud i deimlo'n annigol.
3. Cytunodd 73% y dylen nhw gael eu cau.

WNAETHOM NI...

Ym mis Mawrth 2021, cafodd terfyn cyflymder 20mya ei gyflwyno yn yr ardal.

2. Cynhalion ni ymgynghoriad cam 2, ac yn dilyn cytundeb o'r preswylwyr hynny a'r defnyddwyr ffordd a ymatebodd, rydym bellach wedi gwneud cynnydd drwy gael cyllid am gamerau cyflymder cyfartalog yn yr ardal. Bwriedir i'r gwaith ddechrau yn yr hydref.

O ganlyniad i'r arolwg hwn a'i ganfyddiadau, byddwn bellach yn ymgynghori gyda phentrefi eraill ar hyd y ffordd i weld a yw'n ofynnol cael estyniad o'r caerau cyflymder cyfartalog rhwng Mynwent y Crynwyr a Phentrebach.

3. Mae'r gatiâu ar gau bellach am 9pm bob nos, gan ailagor am 8am yn y bore (oriau'r haf). Bydd hyn yn newid i 6pm – 8am yn ystod y gaeaf.

Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 Meithrin Darparu Ffynnu

Ydych chi'n gyflogedig ac yn 16 oed neu'n hyn?
A hoffech symud ymlaen yn eich swydd bresennol?
Hoffech chi newid eich gyrfa?

Eisiau ennill sgiliau neu gymwysterau sy'n gysylltiedig â'ch swydd?

Mae gen i swydd ond...



Alle'n ni helpu chi...

Gan roi'r ddarpariaeth cymwysterau gwaith perthnasol am DDIM!

Gan roi'r gefnogaeth i chi parhau gwaith a chyflogaeth.

Gan gymorth newidiadau gyrfa.

Gan rymuso'ch cynnydd gyrfa.

Ffeindiwch ni ar Facebook – Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 Merthyr Tudful

Ffôn: 01685 727070 E-bost: wfa2@merthyr.gov.uk

Cyfeiriad: Canolfan Busnes Orbit, Merthyr Tudful CF48 1DL



Ymunwch â'n Panel ar-lein i Ddinasyddion

Ein swyddogaeth ni yw cynnig plattfform i'n cwsmeriaid gael clywed eu lleisiau ac yn aml mae hynny'n golygu dod o hyd i'r cwsmeriaid rheini nad ydym yn clywed cymaint ganddynt. Nid ydym am glywed gan ein cefnogwyr a'n llysgenhadon yn unig, yn hytrach, rydym am gwsmeriaid sydd yn mynd i'n gwaith ni i feddwl yn wahanol a gwella'n gwasanaethau.

Rydym yn datblygu panel ar-lein newydd i ddinasyddion ac rydym yn gwahodd preswylwyr lleol i ymuno â ni a bod yn rhan o wella bywydau'r rheini sydd yn byw yn ein Bwrdeistref Sirol.

Rydym yn ei chael yn anoddach i gyrraedd preswylwyr ifanc, yn enwedig y rheini sydd rhwng 18 a 34 oed felly os oes unrhyw un yn eich cartref chi sydd o'r oed hynny, byddem yn hynod awyddus eu bod yn ymuno â ni.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i gynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau lleol, yn enwedig wrth i ni reoli'r adferiad yn sgil effeithiau COVID-19. Nid oes angen fawr o ymroddiad; byddwch yn cael eich gwahodd i gyfranogi ar-lein mewn arolygon barn, er enghraifft a gallwch ddewis pa weithgareddau yr hoffech fod yn rhan ohonynt.

Bydd y panel hwn yn gymorth i ni ddeall safbwyntiau'n preswylwyr ar amrywiaeth eang o faterion fel darpariaeth ein gwasanaethau rheng flaen, yr amgylchedd a'r economi leol. Bydd adborth o'r panelu yn hysbysu'n penderfyniadau ac yn ein cynorthwyo i wneud y pethau iawn er mwyn cyflawni anghenion pobl leol.

Os oes gennych ddiddordeb i fod yn rhan o hyn, e-bostiwch corporate.communications@merthyr.gov.uk a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi â mwy o fanylion ac i gadarnhau'ch lle ar y panel.

Y bwriad yw cynnal panelu ffocws cwsmeriaid bob yn ail fis.

Peidiwch anghofio bod ffyrdd eraill y gallwch rannu'ch

safbwyntiau ar wefan y Cyngor

neu ein safleoedd cyfryngau

cymdeithasol.



Gwobr y Frenhines

Hoffai'r Cyngor longyfarch nid un, ond dau grŵp cymunedol ym Merthyr Tudful am ennill Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol.



Mae Ymddiriedolaeth Elusenol Canmlwyddiant Stephens a George, sy'n rhedeg Canolfan Gymunedol Dowlais a Phrosiect Dynion Gurnos, ill dau wedi cael

Bod yn Ddwylieithog ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Ydych chi'n ystyried anfon eich plentyn i ysgol/ysgol feithrin cyfrwng Cymraeg?

Please visit <https://www.merthyr.gov.uk/resident/schools-and-learning/begin-the-bilingual-journey/> for more information.

- Mae tua 81% o ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg ym Merthyr Tudful yn dod o gartrefi di-Gymraeg.
- Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos bod plant dwylieithog yn tueddu i gyflawni'n uwch yn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Maen nhw hefyd yn tueddu i weithio'n well dan bwysau.

Ymchwil rhyngwladol gan yr Athro Colin Baker, Dr Ellen Blaystok, Yr Athro E. Bylund, yr Athro P. Athanasopoulos a Dr G. Pouch.

Beth fyddai cymorth i dalu am gostau gofal plant yn ei olygu i'ch teulu chi?

What would support towards childcare costs mean to your family?

A ydych chi'n gweithio ac yn rhiant i blentyn 3 neu 4 oed? Ydych chi'n ennill llai na £100k?

Gall y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 i 4 oed hawlio arian tuag at gost gofal plant.

Rydym ni eisiau gwneud bywyd fymryn yn haws i rieni sy'n gweithio, p'un a yw hynny'n golygu ychydig o arian ychwanegol bob mis neu roi mwy o hyblygrwydd i chi o ran sut a phnd rydych chi'n gweithio.

Beth bynnag mae'r Cynnig yn ei olygu i chi a'ch teulu – peidiwch â cholli'r cyfle i gael cymorth y bywodaeth gyda gofal plant.

Gallwch wneud cais ledled Cymru nawr: www.merthyr.gov.uk/30awr

Are you a working parent of a 3 or 4 year old? Earn less than £100k?

Most working parents of 3 to 4 year olds can now claim funds towards the cost of childcare.

We want to make life a bit easier for working parents, whether that means a bit of extra money every month or giving you more flexibility in how and when you work.

Whatever the Offer means for you and your family – don't miss out on government support with childcare.

Applications are now open right across Wales: www.merthyr.gov.uk/30hours

Cynnis Gofal Plant Cymru
The Childcare Offer for Wales

Cynghorfa Merthyr Tydfil
Merthyr Tydfil Council

Ynyswedd Cymru
Welsh Government



Agorwch eich cartref i ddatgloi eu dyfodol

Dewch yn rhiant maeth ar ran Merthyr Tudful.

Open your home to unlock their future

Become a foster carer for Merthyr Tydfil. www.fostercwmataf.co.uk/

eu gwobrwyo.

Crëwyd y Wobr hon yn 2002 i ddathlu Jiwbil Aur y Frenhines ac mae'n cyfateb i MBE, a dyma'r wobwr uchaf y gall gwirfoddolwyr ei derbyn yn y DU.

Derbyniodd Prosiect Dynion Gurnos enwebiad arbennig hefyd am ddarparu

cefnogaeth effeithiol yn ystod y pandemig.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Lisa Mytton: "Mae hon yn Wobr uchel ei bri, ac mae cael dau sefydliad o Ferthyr Tudful yn ei hennill yn rhywbeth i fod yn falch iawn ohono yn wir! Da iawn i chi gyd!"